

# Beth sydd o'i le ar bechu?

*“A ydym i barhau mewn pechod, er mwyn i ras amlhau?” (adn. 1)*

## Beth am ddarlenn Rhufeiniaid 6: 1–14 ac yna myfyrio

Bellach yr wyf am symud at gwestiwn arall. Beth yw ystyr ymarferol dod â'n bywydau i fyw yn ôl safonau'r Ysgrythur? Mae'n golygu peidio â dweud celwydd, peidio twyllo, dwyn, rhegi, meddwi, gwylltio, anonestrwydd ac yn y blaen. Wrth restru'r pethau hyn, mi fuasai'n hawdd i rywun feddwl nad yw Cristnogaeth yn ddim mwy na gwaharddiadau, ond mae'r Cristion yn gwybod yn wahanol. Mae ein lles ysbrydol, ein hymwybyddiaeth o iechyd, yn deillio o'n parodrwydd i ymwadu â phethau fel hyn.

Roedd rhai yn yr Eglwys Fore yn credu fod bywyd sanctaidd yn rhywbeth y gellid ei esgeuluso, gan gredu, wrth i ni bechu, ein bod yn rhoi cyfle i Dduw ddangos ei ras. Mae'n siŵr fod yna rai sydd yn parhau i goledu'r farn hon. Ymwelais â gwefan 'eglwys' yn ddiweddar, ac o dan sylwadau'r gweinidog roedd y geiriau hyn; 'Yn ôl Paul, yr ydym wedi ein rhyddhau o iau caethiwed y gyfraith (Galatiaid 5:1) ac felly os ydym yn pechu, ni ddylem boeni yn ormodol gan nad ydym mwyach o dan y gyfraith ond yn hytrach o dan ras.'

Yr hyn y mae Paul yn cyfeirio ato yma yw'r gwirionedd am ein perthynas gyda Duw. Nid yw ein derbyniad bellach yn ddibynnol ar gadw gofynion y gyfraith, ond ar y ffaith ein bod, drwy ffydd, wedi credu fod gwaith Iesu ar y groes yn ein rhyddhau i fywyd, gan ei fod Ef wedi cymryd mellith y ddeddf arno'i hun. Yr ydym yn cael ein derbyn gan Dduw oherwydd ein bod wedi derbyn Iesu, ond nid yw hyn yn golygu y medrwn anwybyddu'r gyfraith y bu i Dduw ei llunio.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Gal. 5:13–26

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae defnyddio ein rhyddid?
2. Beth yw nodweddion bywyd yn yr Ysbryd?

## Gweddi

O Dad, diolch am roi Iesu i ni yn Waredwr ac yn Arglwydd, yn un y medrwn, o edrych arno, fesur ein bywyd ysbrydol bob dydd. Cynorthwya fi i osgoi'r loes o beidio â chadw fy llygaid arno yn wastad. Rwy'n gofyn hyn yn enw Iesu. Amen.